

Cymdeithas y Cymod

Mudiad o bobl Cymru sy'n credu yn y llwybr di-drais mewn ymateb i ryfel a militariaeth



Datganiad i'r Wasg 22 Mawrth 2019

Actifydd ar Hawliau Dynol o'r Yemen yn ymweld â Chaerdydd

Mae Hisham al-Omeisy, beirniad blaenllaw o'r lluoedd i gyd yn y rhyfel yn yr Yemen yn ymweld â Chaerdydd heddiw, Dydd Gwener, Mawrth 22ain. Fe fydd yn rhannu ei ddadansoddiad o achosion y rhyfel a sut mae wedi effeithio pobl gyffredin yr Yemen mewn cyfarfod cyhoeddus yn y Deml Heddwch am 7pm.

Mae Hisham al-Omeisy yn actifydd gwleidyddol a ddaeth i enwogrwydd yn ystod y Gwanwyn Arabaidd a'r gwrthdaro cyfredol yn yr Yemen. Mae'n lais blaenllaw a chydnyddedig yn ei faes, sy'n darparu sylwebaeth a dadansoddiad manwl o'r gwrthdaro cymhleth yr yr Yemen trwy'r cyfryngau cymdeithasol.

Fe'i ddedfrydwyd i 5 mis o garchariad unigol ym mis Awst 2017 am feirniadu'r awdurdodau milwrol 'llwgr'.

Dyfyniad gan Hisham "Ar hyn o bryd mae pawb yn ffocysu ar sut ellir dod i gadoediad neu gytundeb rhannol gydag ychydig iawn o sylw yn cael ei roi i sut mae'r gwrthdaro wedi dwyshau drwgdeimlad blaenorol ac wedi rhwygo gwedd cymdeithasol y wlad. Os ydym i sicrhau heddwch hir-dymor, mae angen ymagwedd holistaidd sy'n cydnabod gwreiddiau'r gwrthdaro, ond hefyd yn gweithio tuag at adeiladu heddwch a chymod er mwyn cyrraedd heddwch parhaol a chynaliadwy."

Mae Cymdeithas y Cymod, cangen Gymreig y 'Fellowship of Reconciliation' Rhyngwladol wedi trefnu ymweliad al-Omeisy er mwyn gwella ein dealltwriaeth yng Nghymru o sut allwn gynorthwyo i ddod a'r gwrthdaro enbyd yn yr Yemen i ben.

Casglodd Comisiynydd Uwch y Cenhedloedd Unedig ar gyfer Ffoaduriaid (UNHCR) yn ei adroddiad diweddar bod bron i gant o ddinasyddion wedi cael eu lladd neu anafu yn yr Yemen bod wythnos yn ystod 2018, tra bod y rhagair i adroddiad 'Days of Judgement' y Rhwydwaith Prifysgolion ar gyfer Hawliau Dynol (UNHR) yn yr Unol Daleithiau a'r grŵp monitro Ymenaid Mwatana wedi gwneud yn gwbl eglur pa mor ofnadwy yw'r sefyllfa yno: 'Ar hyn o bryd mae pawb yn ffocysu ar sut ellir dod i gadoediad neu gytundeb rhannol gydag ychydig iawn o sylw yn cael ei roi i sut mae'r gwrthdaro wedi dwyshau drwgdeimlad blaenorol ac wedi rhwygo gwedd cymdeithasol y wlad. Os ydym i sicrhau heddwch hir-dymor, mae angen ymagwedd holistaidd sy'n cydnabod gwreiddiau'r gwrthdaro, ond hefyd yn gweithio tuag at adeiladu heddwch a chymod er mwyn cyrraedd heddwch parhaol a chynaliadwy.'

DIWEDD

Nodiadau i'r golygydd:

1. Am fwy o fanylion, cyfweiliadau a lluniau, cysylltwch ag Awel Irene ar cymdeithasycymod@gmail.com neu 07867790971
2. Hisham Al-Omeisy is a political analyst and a Yemen consultant. He has extensive experience in public affairs, media communication, socio-economic and information analysis, capacity building, and project management. He has over 20 years of experience working in the private and public sector, with local and international organizations, including the UN and foreign missions in Yemen. Fluent in Arabic and English, he holds a BA in International Relations from the University of Calgary, and is a candidate for an International Master's Degree in Conflictology' from a joint program between the United Nations Institute for Training and Research (UNITAR) and Univeristat Oberta de Catalunya (UOC), as well as an MA in Reconciliation and Peacebuilding from the University of Winchester. Publicly outspoken and a human rights defender, he is a consultant and a commentator on Yemen affairs, and was named as a prominent opinion shaper and also as one of the most popular Yemeni influencers. He is often cited and/or quoted in media reports, as well as being interviewed and invited as an expert on special programs that have largely been focused on the conflict in Yemen. Ei safon : <https://omeisy.wordpress.com>
3. <https://www.bbc.co.uk/news/world-middle-east-42694603>